



Cyfarfod

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

DYDD LLUN, 11EG TACHWEDD, 2024

I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 1 Tachwedd 2024)

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Huw Rowlands
Alan Jones Evans
Arwyn Herald Roberts

Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gwynfor Owen
Sedd Wag

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
John Brynmor Hughes
Hefin Underwood

Angela Russell
Anwen J. Davies

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Fehefin 2024 fel rhai cywir

5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU

5 - 26

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

- a) 10-06-24
- b) 25-07-24
- c) 06-09-24

6. CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD - TRINIAETHAU ARBENNIG 27 - 46

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo is – ddirprwyo swyddogaethau a ddirprwyd i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog o dan y Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 i'r Is -Bwyllgor Trwyddedu Canolog

PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 10-06-2024

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Angela Russell, Gareth Williams a Hefin Underwood

Swyddogion: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2024/25

PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2024/25

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2024/25

PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2024/25

3. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 4ydd o Fawrth 2024 fel rhai cywir

Dechreuodd y cyfarfod am 10.25am a daeth i ben am 10:30am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 10fed o Fehefin 2024

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes ac Edgar Owen

Swyddogion: Sion Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Moira Duell Parri (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAIS TRWYDDED EIDDO:

Y Vaults, 334 Stryd Fawr, Bangor LI57 1YA

Erail a wahoddwyd:

- Mr James Chinery (yr ymgeisydd)
- Lis Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygwyd bod sylwadau am y cais wedi eu cyhoeddi yn y wasg a bod y sylwadau hynny yn gynamserol o ystyried nad oedd y cais wedi bod gerbron yr Is-bwyllgor.

a) Adroddiad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer tafarn a bwyty Y Vaults, 334 Stryd Fawr, Bangor. Cafodd y cais ei gyflwyno mewn perthynas â cherddoriaeth byw ac wedi'i recordio tu mewn, lluniaeth hwyr yn y nos ar ac oddi ar yr eiddo a chyflenwi alcohol ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebiad i'r cais, ond roeddynt wedi cyflwyno amodau a sylwadau yn ymwneud a'r egwyddorion o Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd. Er yn croesawu menter busnes newydd ym Mangor tynnwyd sylw

at yr angen i sicrhau ymgynghoriad gyda thrigolion cyfagos i'r eiddo a hefyd bod yr ardal dan sylw yn ardal brysur gyda'r nos. Awgrymwyd y byddai agor lleoliad arall yn yr ardal yma yn cynyddu'r nifer ymwelwyr ac o ganlyniad yn cynyddu'r risg o drwbl / anaf difrifol / marwolaeth. Cyflwynwyd sylwadau hefyd gan Wasanaeth Iechyd yr Amgylchedd oedd yn pryderu am effaith sŵn o'r eiddo ar drigolion cyfagos, a hefyd am ddiffyg gwybodaeth am gynllun ar y defnydd o gyfleusterau awyr agored.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymhell fod y Pwyllgor yn ystyried sylwadau ac amodau'r Heddlu, ynghyd ag amodau ychwanegol Iechyd yr Amgylchedd fel y cytunwyd gyda'r ymgeisydd, a chymeradwyo'r cais yn unol â Deddf Trwyddedu 2003

- b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-
- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
 - Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
 - Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
 - Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
 - Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
 - Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
 - Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
- c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:
- Bod y dafarn yn un o hen dafarndai Bangor – dros 150 mlwydd oed
 - Mai'r bwriad oedd darparu tafarn / bwyty ar gyfer pobl aeddfed – nid oedd y fenter yn cael ei thargedu ar gyfer myfyrwyr / pobl ifanc
 - Bydd bwyd ac adloniant byw yn cael ei ddarparu ynghyd a lluniaeth hwyr yn y nos ar ac oddi ar yr eiddo (bydd hyn yn osgoi mwy o bobl yn hel tu allan i'r siop kebabs)
 - Ei fod yn derbyn sylwadau Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru am brysurdeb yr ardal - nid oedd yn rhagweld y bydd ei gwsmeriaid yn achosi trwbl.
 - Ei ddymuniad oedd rhoi rhywbeth yn ôl i gymuned Bangor
- ch) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Theledu Cylch Cyfyng (TCC) a'r sicrwydd bydd y system yn effeithiol i gasglu tystiolaeth, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod yr ymgeisydd wedi cwblhau atodlen weithredol gynhwysfawr yn manylu ar ddefnydd TCC. Roedd hefyd wedi cytuno gydag amodau TCC yr Heddlu.
- d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt. Tynnwyd sylw at y sylwadau hynny a gyflwynwyd gan yr ymgynghorai nad oedd yn bresennol.

Lis Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

- Bod cyfarfod buddiol wedi ei gynnal gyda'r ymgeisydd i drafod y cais
- Bod yr ymgeisydd yn barod iawn i gydweithio ac wedi cytuno gydag amodau'r Heddlu
- Bod yr Arolygydd, oherwydd prysurdeb yr ardal yma o Fangor gyda'r nos, wedi amlygu pryderon a thynnu sylw at broblemau posib fyddai yn codi o gynnydd mewn ymwelwyr i'r ardal.
- Derbyn y bydd lluniaeth hwyr yn y nos yn cael ei weini o'r eiddo - hyn yn lleihau'r nifer fydd yn ymgasglu tu allan i eiddo lluniaeth hwyr cyfagos

- Yn hapus gyda'r cais yn ddarostyngedig i leihau'r oriau gwerthiant alcohol a chynnwys yr amodau a gynigiwyd ar y drwydded
- dd) Yn absenoldeb Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd gan Iechyd yr Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais yn dilyn cytundeb gan yr ymgeisydd i'r sylwadau a'r amodau a gynigiwyd yn ymwneud â rheoli sŵn.
- e) Nid oedd gan yr ymgeisydd unrhyw sylwadau pellach
- f) Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn hapus gyda pharodrwydd yr ymgeisydd i gydweithio ac addasu'r cais.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawriad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- i. Atal trosedd ac anhrefn
- ii. Atal niwsans cyhoeddus
- iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
- iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar addasu oriau gwerthiant alcohol.

Oriau Diwygiedig Cyflenwi Alcohol – Ar yr eiddo yn unig

10:00 – 00:00 Dydd Sul i Ddydd Iau

10:00 – 02:00 Dydd Gwener i Ddydd Sadwrn

Amodau:

- Bydd amseroedd ansafonol yn parhau fel y maent ar gyfer penwythnosau Gŵyl y Banc, gyda chaniatâd ychwanegol i alluogi hyd at ddeg digwyddiad bob blwyddyn (Sul i Iau) lle caiff yr eiddo weithredu hyd at 02:00 gyda gwybodaeth a chytundeb ymlaen llaw gan yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu
- Cynnwys amodau TCC arfaethedig
- Cyflogi staff drysau sy'n gofrestredig â'r SIA o 21:00 ymlaen ar adegau lle mae'r eiddo yn agored ar gyfer busnes yn hwyrach na 23:00 (nos Wener a nos Sadwrn)
- Deilydd y drwydded i gynnal asesiad risg i weld os oes angen Goruchwylwyr Drysau ar yr eiddo ac i gyflogi Goruchwylwyr Drysau, sy'n gofrestredig â'r SIA, os bydd angen hynny
- Cynnwys mesurau er dibenion rheoli sŵn

- **Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais, ond cynigiwyd amodau i'r ymgeisydd. Cadarnhaodd cynrychiolydd yr Heddlu yn y gwrandawriad fod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau hynny. Eglurwyd hefyd nad oedd sylwadau'r Arolygydd yn ymwneud yn benodol â'r eiddo na'r cais dan sylw, ond teimlwyd y dylid darparu'r wybodaeth i'r Is-bwyllgor. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bellach oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** nid oedd dystiolaeth wedi ei gyflwyno yn amlygu y bu problemau oedd yn berthnasol â'r egwyddor yma gyda'r eiddo.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus**, ac yn sgil pryderon a godwyd gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, cytunodd yr ymgeisydd yn ysgrifenedig i gynnwys mesurau ychwanegol yn yr atodlen weithredu at ddibenion rheoli sŵn. O ganlyniad, tynnwyd gwrthwynebiad y swyddog yn ôl.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed**, ni chyflwynwyd dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn. Roedd y cais hefyd yn cynnwys eglurhad o'r mesurau ar gyfer sicrhau na fyddai alcohol yn cael ei werthu i rai dan oed, ac y byddai'r drwydded yn cynnwys amodau i'r perwyl hyn .

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatwyd y cais. Ar nodyn cyffredinol, eglurwyd mai ar sail dystiolaeth roedd yr Is-bwyllgor yn gwneud eu penderfyniad a bod y ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn adolygu lle gellid gofyn i'r awdurdod adolygu unrhyw agwedd o'r drwydded os oedd angen.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy llythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 11:15

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

25 Gorffennaf 2024

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Elfed Williams (Cadeirydd), Linda Ann Jones a John Brynmor Hughes

Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ffion Muscroft - Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a Mared Llwyd - Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAIS TRWYDDED EIDDO: Jac y Do, Caernarfon, Gwynedd

Eraill a wahoddwyd:

Non Edwards – Ymgeisydd
Siân Astley - Partner Busnes yr ymgeisydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) Adroddiad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer tafarn a bwyty Jac Y Do, Clwb y Ceidwadwyr, Caernarfon. Cafodd y cais ei gyflwyno mewn perthynas â Cherddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio y Tu Mewn, Lluniaeth Hwyr yn y Nos ar yr Eiddo a Chyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan lechyd yr Amgylchedd yn nodi nad oedd ystyriaethau rheoli sŵn wedi cael sylw digonol. Awgrymwyd bod angen ymgymryd ag asesiad sŵn, insiwleiddio sŵn a mesuriadau lliniaru i sicrhau nad yw sŵn o'r eiddo yn achosi niwsans statudol i drigolion tai preswyl gerllaw. O ganlyniad, roeddynt yn argymhell gwrthod y cais.

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu, yn absenoldeb Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, ers cyhoeddi rhaglen yr Is-bwyllgor, bod asesiad sŵn wedi ei dderbyn a bod y swyddog bellach yn argymhell cymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig ar gynnwys yr amodau sŵn a golau a gyflwynwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.

- b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-
- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
 - Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
 - Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
 - Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
 - Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
 - Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
 - Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
- c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r ffaith bod Adran Gwarchod y Cyhoedd yn ymdrin â chais cynllunio i'r eiddo gael ei ddefnyddio fel tafarn, ac nad oedd ystyriaethau digonol wedi eu gwneud i reoli sŵn, nododd y Swyddog Cyfreithiol er bod sŵn yn fater perthnasol i gyfundrefn cynllunio a thrwyddedu mai'r cyd-destun trwyddedu oedd angen ei ystyried yma.
- ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:
- Mai'r bwriad oedd chwarae miwsig cefndirol – dim byd swllyd. Nad oedd bwriad chwarae cerddoriaeth byw pob dydd – efallai unwaith bob pythefnos
 - Bod yr eiddo wedi agor dros dro yn ystod Gŵyl Fwyd Caernarfon ac fe ddaeth i'r amlwg yr adeg hynny bod angen cais cynllunio. Nid oedd y landlord wedi gwneud un
 - Bod asesiad sŵn bellach wedi ei gyflwyno
- d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

Yn absenoldeb Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod asesiad sŵn bellach wedi ei dderbyn a bod y swyddog yn fodlon bod yr asesiad hwnnw yn cydymffurfio â'r gofynion. Diolchodd hefyd bod cydweithio da wedi bod rhwng Adran Gwarchod y Cyhoedd a'r ymgeisydd.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partiön â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawriad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- i. Atal trosedd ac anhrefn
- ii. Atal niwsans cyhoeddus
- iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus

iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar gynnwys yr amodau sŵn a golau a gyflwynwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.

- Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo yn agored neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod yma mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142: 2019
- Er mwyn arbed i sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant, heblaw i sicrhau mynediad i mewn ac allan o'r eiddo.
- Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon, bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod (i) bydd perchennog yr eiddo yn gwneud y canlynol:
 - Gwneud unrhyw waith ynysu / arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio ac amod sŵn a / neu
 - Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn sydd wedi ei sefydlu fel uchafswm caniatâedig.
- Unwaith bydd lefel ar ddyfais reoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Llygredd), Cyngor Gwynedd.
- Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd y tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22:00 - 08:00 . Bydd y poteli yn cael eu cadw oddi fewn i gwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead.
- Bydd arwyddion clir a dealladwy yn cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sydd yn gadael yr adeilad i gysidro trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau ceir na chanu cyn ceir.
- Ni chaniateir i unrhyw gerddoriaeth cael ei chwarae tu allan yr eiddo.
- Nid yw unrhyw oleuo mewnol nac allanol sydd i'r pwrpas o ddiogelwch staff neu ddiogelwch yr eiddo yw gosod mewn modd sydd yn achosi niwsans i unrhyw eiddo ger llaw.

Amodau ychwanegol i gynnwys

- Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn manylu ar botensial sŵn o gerddoriaeth chwyddedig yn yr eiddo o effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn ar Stryd y Farchnad, Stryd Fawr, Caernarfon, a'r fflatiau uwchben yr adeilad.
- Os yw'r asesiad yn dangos bod sŵn o'r eiddo yn debygol o effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn, yna bydd yn cynnwys cynllun manwl o fesurau lliniaru sŵn i ddangos na fydd niwsans yn cael ei achosi i feddianwyr eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn gan sŵn o'r eiddo trwyddedig.
- Bydd yr holl waith a argymhellir yn cael ei gwblhau cyn dechrau'r drwydded safle a rhaid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf 5 diwrnod cyn i'r gwaith gael ei gwblhau a'r eiddo'n cael ei ddefnyddio.
- Bydd peiriant cyfyngu sŵn yn cael ei osod i reoli a mesur sŵn
- Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus**, roedd Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd yn fodlon gyda'r cais pe byddai'r amodau a gynigwyd ganddynt mewn ymateb i'r cais, ynghyd a'r amodau pellach a argymhellwyd yn yr Adroddiad Asesiad Sŵn yn cael eu cynnwys ar y drwydded. Nid oedd unrhyw sylwadau eraill wedi eu cyflwyno mewn cysylltiad â'r egwyddor hwn, felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed**, ni chyflwynwyd dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn..

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais. Ni dderbyniwyd sylwadau / gwrthwynebiadau gan y cyhoedd na gan yr Aelod Lleol. Ar nodyn cyffredinol, eglurwyd mai ar sail tystiolaeth roedd yr Is-bwyllgor yn gwneud eu penderfyniad a bod y ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn adolygu lle gellid gofyn i'r awdurdod adolygu unrhyw agwedd o'r drwydded os oedd angen.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy llythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

5: Cais Trwydded Eiddo Motocamp Wales, Dolgellau

Eraill a wahoddwyd:

- Stephanie Jeavons – Ymgeisydd
- Elizabeth Williams – Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru

- a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Moto Camp Wales, Ffordd Pen y Cefn, Dolgellau, Gwynedd. Cafodd y cais ei gyflwyno mewn perthynas am drwydded eiddo i: Werthu alcohol i gwsmeriaid sydd yn aros hefo nhw ar y safle (ar yr eiddo) o 14:00 - 02:00, o ddydd Llun i Sul. Cerddoriaeth byw yn ystod gweithgareddau penwythnos (tu fewn a thu allan) rhwng 12:00 a 23:30 ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul. Cerddoriaeth wedi recordio (tu fewn a thu allan) eto o 12:00 hyd at 23:30 ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan amlygu bod Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cais i amodau ychwanegol gael eu cynnwys ar y

drwydded yn ymwneud â chydweithio gyda Grŵp Cyngori a'r Ddiogelwch. Amlygwyd nad oedd gan y Gwasanaeth Tân nac Adran Gwarchod y Cyhoedd wrthwynebiad i'r cais er wedi tynnu sylw at gwynion sŵn a dderbyniwyd yn dilyn digwyddiad dros dro a gynhaliwyd ar y safle yn 2023. Er i staff y safle ddelio gyda'r cwynion yn effeithiol, ystyriwyd y byddai caniatáu cerddoriaeth fyw hyd 23:30 pob dydd Gwener i ddydd Sul achosi niwsans cyhoeddus i drigolion cyfagos, ac felly, yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd, nodwyd bod cyfaddawd i ganiatáu hyd at bedwar digwyddiad y flwyddyn galendr ar gyfer cerddoriaeth awyr agored wedi ei gytuno.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymhell fod y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac yn caniatáu y cais cyn belled a bod yr ymgeisydd yn fodlon gyda chyfaddawd a gytunwyd gyda Gwarchod y Cyhoedd a chytuno gydag amodau'r Heddlu.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Ei bod yn hapus gyda'r cyfaddawd i leihau nifer digwyddiadau gyda cherddoriaeth awyr agored i bedwar mewn blwyddyn - hyn yn rhoi cyfle da iddynt brofi eu hunain o reoli digwyddiadau heb ymyrraeth.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

Elizabeth Williams Heddlu Gogledd Cymru

- Bod cais i'r ymgeisydd gwblhau holiadur syml yn ymwneud â rheoli diogelwch.
- Bod y cyfaddawd gyda Gwarchod y Cyhoedd yn un doeth, ond bydd pob digwyddiad yn gofyn am gymeradwyaeth Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd – bydd rhaid cyflwyno asesiad risg priodol a chynllun rheoli ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Yn absenoldeb Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd, pwysleisiodd y Rheolwr Trwyddedu yr angen i'r ymgeisydd gwblhau'r holiadur oedd yn ymwneud â rheoli diogelwch, a'i gyflwyno i'r Grŵp Cyngori a'r Ddiogelwch ar gyfer trafodaeth. Ategwyd os bydd yr Heddlu a'r Cyngor yn hapus gyda'r modd mae'r safle yn cael ei reoli yn ystod digwyddiadau gyda cherddoriaeth awyr agored, ac nad oedd profiadau negyddol, yna bydd modd ystyried opsiynau megis amrywio trwydded neu gyflwyno hysbysiad digwyddiad dros dro. Nododd bod amodau'r Heddlu yn rhan o ymarferoldeb y broses.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partiön â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawriad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- i. Atal trosedd ac anhrefn
- ii. Atal niwsans cyhoeddus
- iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
- iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar ddiwygio amodau cerddoriaeth awyr agored i 4 digwyddiad y flwyddyn galendr yn ystod y cyfnod y gofynnwyd amdano, sef 12:00 – 23:30

Amodau ychwanegol i gynnwys

- Creu cynlluniau rheoli diogelwch digwyddiadau manwl ar gyfer pob digwyddiad unigol a fydd yn cael eu trafod gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd, a chytunir â phob aelod o'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch (SAG) a'u gweithredu gan Drefnwyr y Digwyddiad.
- Bydd pob digwyddiad yn gofyn am gymeradwyaeth Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd drwy gyflwyno Aseidiadau Risg priodol ar gyfer digwyddiadau a Chynllun Rheoli.
- Bydd mesurau i atal trosedd ac anhrefn a rheoli torf yn cael eu cytuno gyda'r heddlu ac aelodau eraill o'r SAG a'u hymgorffori yng Nghynllun Rheoli Digwyddiadau a'u gweithredu gan drefnwyr y digwyddiad.
- Bydd gan bob digwyddiad gynllun rheoli digwyddiadau diogelwch pwrpasol. Bydd mesurau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn cael eu trafod ag aelodau'r SAG a'u hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Digwyddiadau a'u gweithredu gan Drefnwyr y Digwyddiad.
- Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn**, cyflwynwyd sylwadau gan yr Heddlu yn argymhell amodau penodol i'w hychwanegu at y drwydded mewn cysylltiad â chynnal digwyddiadau. Roedd yr ymgeisydd yn pryderu y byddai gorfod cyflwyno cynllun ar gyfer pob digwyddiad fod yn feichus, ond eglurwyd y byddai'n rhaid llenwi holiadur ar gyfer pob digwyddiad, ond y byddai'r gofynion, o ran paratoi cynllun yn gymesur gyda natur y digwyddiad penodol. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y dylid cadw'r amodau fel ag yr oeddynt. Er pryder ynglŷn â thraffig a defnydd tir, nodwyd y byddai'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio gyda'r gofynion.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus**, cyflwynodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sylwadau yn mynegi pryderon y gallai cerddoriaeth awyr agored danseilio'r egwyddor yma yn enwedig gan fod cwynion sŵn wedi eu derbyn yn dilyn digwyddiad yn 2023. Er hynny, roedd y gwasanaeth yn fodlon bod y staff wedi delio gyda'r cwynion hynny cyn gynted ag yr oeddynt yn ymwybodol ohonynt. Roedd cyfaddawd wedi ei gytuno gyda'r ymgeisydd y byddai 4 digwyddiad y flwyddyn galendr ar gyfer miwsig y tu allan (byw ac wedi ei recordio) ar gyfer yr oriau y gofynnwyd amdanynt yn dderbyniol

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed**, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais. Ar nodyn cyffredinol, eglurwyd mai ar sail tystiolaeth roedd yr Is-bwyllgor yn gwneud eu penderfyniad a bod y ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn adolygu lle gellid gofyn i'r awdurdod adolygu unrhyw agwedd o'r drwydded os oedd angen.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy llythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:20

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Medi 6ed 2024

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Gwynfor Owen (Cadeirydd), Arwyn Herald Roberts a Gareth Tudor Jones

Swyddogion: Sion Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Gweler isod

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO: Gwesty Dolbadarn, Stryd Fawr, Llanberis

- Sarah Hopwood Ar ran yr ymgeisydd
- Arwel Huw Thomas Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd
- Louise Woodfine Iechyd Cyhoeddus
- Moira Duell Pari Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd
- Elizabeth Williams Heddlu Gogledd Cymru

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan breswylwyr lleol a gyflwynwyd sylwadau - Lesley Wilson, Adrian Roberts, Dylan Davies a Dylan Wyn Jones

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) Adroddiad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywiad trwydded eiddo ar gyfer Gwesty Dolbadarn, Stryd Fawr, Llanberis. Cyflwynwyd y cais i amrywio ei drwydded i gynnwys gwerthu alcohol o'r ardd tu allan i'r gwesty ac wedi'i wahanu gan gyffordd mynediad.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

- Nifer o breswylwyr cyfagos yn gwrthwynebu'r cais gan amlygu pryderon ynglŷn â nifer o achosion o droseddau anhrefn cyhoeddus oedd wedi bodoli yn yr ardal yn ddiweddar; pryderon ynghylch diffyg darpariaeth teledu cylch cyfyng TCC) a

goleuo gwael yn debygol o gynyddu'r tebygolrwydd y bydd gweithgareddau troseddol ac anhrefn yn cynyddu gydag estyniad; pryderon ynghylch lles y bobl sy'n aros yn y Gwesty sydd â phroblemau dibyniaeth ar alcohol, gan y byddai argaeledd alcohol ar yr eiddo yn cynyddu temtasiwn.

- Y Gwasanaeth Cynllunio yn gwrthwynebu'r cais gan nad oedd digon o wybodaeth ynghylch a yw'r uned yn gwbl symudol ai peidio; gyda'r uned wedi ei lleoli ar y safle am nifer o fisoedd efallai y bydd angen caniatâd cynllunio; pryderon mewn perthynas â lleoliad arfaethedig yr uned, gan fod y cynllun yn dangos y lleoliad y tu hwnt i gwrtil y dafarn.
- Bod Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno sylwadau i wrthwynebu yng nghyswllt yr amcanion trwyddedu amddiffyn plant rhag niwed a diogelwch y cyhoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwerthu alcohol yn agos i eiddo sy'n darparu llety dros dro i unigolion digartref.
- Gwarchod y Cyhoedd (Rheoli Llygredd) yn gwrthwynebu ar sail mesurau annigonol i reoli niwsans cyhoeddus gyda chwynion wedi dod i law ynglŷn ag arogl coginio
- Nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu'r cais, fodd bynnag, yn gofyn am newidiadau i amodau presennol y drwydded gan fod lle i wella gyda rhai amodau wedi dyddio a/neu wedi'u dyblygu yn ôl y gyfraith neu'n anorfod.

Roedd y Swyddog yn argymhell bod yr Is-bwyllgor yn ystyried yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ofalus, cyn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar a yw o'r farn y gall yr ymgeisydd gydymffurfio â'r amcanion trwyddedu ai peidio, a Deddf Trwyddedu 2003.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor,

- ynglŷn â thoiledau ar y safle, nodwyd nad oedd toiledau parhaol i'r eiddo gan nad oedd Gwesty Dolbadarn yn agored i'r cyhoedd gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cartref dros dro i bobl di gartref. Ategwyd bod y cais yn un anghyffredin - yn westy trwyddedig heb ei gofrestru
- ynglŷn â 'Pubwatch', nodwyd gan nad yw'r Gwesty yn agored i'r cyhoedd nad oedd y perchennog yn mynychu cyfarfodydd, ond y byddai'r person dynodedig cyfrifol yn ymrwmo i fynychu cyfarfodydd
- ynglŷn â'r safle, nodwyd mai'r bwriad oedd lleoli carafán fwyd yn yr ardd gwrw fu'n gweithredu yno yn achlysurol dros y misoedd diwethaf o dan drefniadau TENS
- pam nad oedd argymhelliad pendant wedi ei wneud gan y Swyddogion, nodwyd bod y cais yn un unigryw gyda'r Is-bwyllgor â rhyddid i wneud y penderfyniad eu hunain gan ystyried natur a sail a thystiolaeth a gyflwynwyd

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd Sarah Hopwood, cynrychiolydd yr ymgeisydd a pherchennog y garafán bwyd:

- Bod y cais yn un i reoli'r ardd gwrw yn well gan fod yr ardal ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel man cyhoeddus - nid yw yn ardal saff ac nid oes neb yn cadw at yr amcanion trwyddedu
- Er ei bod yn gwerthu bwyd ac yn cynnig lle i gwsmeriaid eistedd yng ngardd Gwesty Dolbadarn, bod y cyhoedd yn gallu prynu alcohol o siop neu dafarn gyfagos a'i yfed yn yr ardd - nid oedd hyn yn addas i'w busnes gyda gwydr a sbwriel yn cael ei adael ar lawr
- Bod y bwriad yn un cyfeillgar i deuluoedd gyda byrddau wedi eu gosod yn yr ardd – yn agored hyd 20:00. Ni fydd alcohol yn cael ei weini heb fwyd ac ni fydd grwpiau yn cael mynediad
- Ei bod yn deall pryderon a lles trigolion cyfagos, ond bod hawl gan breswylwyr y gwesty ddefnyddio'r ardd. Er yn sefyllfa anodd, nid ei chyfrifoldeb hi yw dweud na ond y gall wrthod gweinio alcohol iddynt. Bod y sefyllfa angen rheolaeth well.
- Bod bwriad gwneud yr ardal yn un saff gyda gwell golau, TCC a thoiledau – petai'r cais yn cael ei ganiatáu bydd modd darparu uned toiled symudol.
- Mewn ymateb i bryderon sŵn, ei bod wedi gweithredu TENS am 21 diwrnod ac nad oedd materion wedi codi. Er hynny, cynllun rheoli sŵn wedi ei lunio
- Bod cwynion arogl wedi eu datrys gyda mesurau ar reolaeth safle wedi eu gweithredu – dim olew, dim ffrio a ffan awyru wedi ei symud.
- Bod dŵr yfed ar gael

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, nodwyd:

- ynglŷn â phryderon 'goleuo gwael' a 'llecynnau tywyll' ac os oedd TCC yn ddigonol i warchod diogelwch y cyhoedd, cwsmeriaid a staff, nodwyd bod bwriad gwella'r goleuni a chyflwyno mwy o oleuadau - er hynny, bwriad yw agor y busnes yn ystod yr Haf pan fydd golau naturiol fin nos. Ategwyd, bod tri camera TCC yn cadw llygad ar yr ardal gyda camera ar y trelar bwyd, y bar gweini ac yn yr ardal eistedd.
- ynglŷn â sut bydd modd atal y cyhoedd rhag defnyddio'r ardd, nodwyd ar hyn o bryd bod rhai yn prynu bwyd o'r garafán ac alcohol o siop neu dafarn gyfagos. Bydd rhaid datgan, os bydd y cais yn cael ei ganiatáu, bod yr ardal yn un drwyddedig ac nad oes modd yfed alcohol o eiddo arall yn yr ardd.
- ynglŷn â nifer y byrddau, nodwyd bod lle i oddeutu 20 o bobl eistedd ar y byrddau ac nad oedd bwriad ychwanegu mwy o fyrddau
- ynglŷn â sut bydd perchennog y Gwesty yn cadw golwg ar weinyddiaeth y drwydded (o ystyried nad oedd yn byw yn lleol), nodwyd y byddai yn penodi swyddog dynodedig ar gyfer y safle ac y byddai hi, fel rheolwr y busnes bwyd wedi cytuno i hyn.
- Ynglŷn â diffyg rheolaeth a chyfyngu cwsmer i 6 uned o alcohol, bydd modd cadw rheolaeth o le daw'r alcohol ac yn yr hyn sy'n cael ei yfed - bydd alcohol ond yn cael ei weini gyda bwyd. Mewn ymateb i gwestiwn ategol y gall hyn roi pwysau ychwanegol ar staff y garafán bwyd, nodwyd bod tîm digonol ar gyfer y gwaith gyda thri ar gyfer gweini bwyd, un ar gyfer gweini alcohol ac un swyddog diogelwch ar adegau prysur.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

Arwel Huw Thomas (Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd)

- Bod pryderon cychwynnol gyda'r cais am drwydded - cyflwynwyd cynllun safle yn dangos amlinelliad o ffin y safle yn unig.
- Nid oes unrhyw wybodaeth wedi cyflwyno yn dangos union leoliad na chwaith unrhyw wybodaeth am yr uned bwyd yn ei chyfarwydd.

- Ar sail diffyg gwybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais, nid oedd modd i'r Gwasanaeth Cynllunio ddod i gasgliad wrth asesu'r bwriad yn erbyn polisïau cynllunio a pholisïau Gorfodaeth y Cyngor.
- Bod Eglwys Saint Padarn, sydd yn adeilad rhestredig wedi ei leoli cyfochrog i'r De o'r safle - heb wybodaeth nid oedd modd asesu'r bwriad yn erbyn polisïau cynllunio sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig o fewn y CDLI.
- Nid oedd digon o wybodaeth wedi cyflwyno er mwyn sicrhau os mai uned llwyr symudol neu beidio yw'r bwriad. Ar sail diffyg gwybodaeth am natur yr uned a'i union leoliad, nid oedd gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno er mwyn penderfynu os oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr uned.
- Ar sail gwybodaeth annigonol a gyflwynwyd, roedd y Gwasanaeth Cynllunio yn gwrthwynebu cais am drwydded

Louise Woodfine (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

- Byddai'r bwriad yn cynyddu hygyrchedd i safle sydd eisoes yn peri rhai problemau
- Bod y digartref ac unigolion eraill sydd yn preswyllo yn y gwesty yn unigolion bregus - byddai darparu alcohol yn creu sefyllfa heriol iawn i rai hynny oedd yn gadael ysbyty gyda gofynion iechyd meddwl cymhleth a phroblemau yn ymwneud ag alcohol a/neu sylweddau eraill.
- Bod unigolion digartref yn defnyddio alcohol fel mecanwaith ymdopi; bod gan y boblogaeth ddigartref fwy o achosion o broblemau iechyd na'r boblogaeth gyffredinol
- Lle mae eiddo trwyddedig wedi cael eu defnyddio fel llety dros dro - gall arwain at ddirywiad cyflym mewn cyflwr meddyliol gan arwain at fynediad i'r ysbyty.
- Pryder ynglŷn â sut bydd gwrthod preswylwyr rhag prynu alcohol yn cael ei reoli
- Bod pryder at agosatrydd yr ardd at yr ysgol leol – 4 munud o daith gerdded
- Nad oeddynt yn cefnogi'r cais

Moira Duell Pari (Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd)

- Derbyn yr angen i ehangu'r busnes, ond yn safle hanesyddol am ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Dwr yfed – angen cadarnhad os bydd yn cael ei weini o beipen neu o botel?
- Bod toiledau tu mewn i'r gwesty!
- Cynllun sŵn - e-bost wedi ei dderbyn ond angen mwy o wybodaeth
- Angen mwy o wybodaeth am y goleuadau PIR pan nad ydynt mewn defnydd
- A yw yn gais trwydded dros yr Haf yn unig neu drwy'r flwyddyn – angen manylion

Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

- Bod angen sicrhau bod dŵr yfed ar gael
- Bod y safle yn rhan o'r dafarn ac felly bod yr hawl i wrthod eisoes yn bodoli

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

- dd) Yn cymryd y cyfle i gloi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu:
- Bod ei phryderon yn parhau - mesurau rheoli annigonol wedi eu cyflwyno
 - Er staff digonol – nifer o agweddau i'w rheoli

Yn cymryd y cyfle i gloi ei hachos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:

- Bod y garafán yn un symudol ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau - os angen caniatâd cynllunio, bod posib cyflwyno cais
- Y byddai yn rheoli y safle yn dda fel deilydd trwydded
- Ni fydd gormod o alcohol yn cael ei weini
- Byddai yn gweithredu yn unol â'r amcanion trwyddedu - yn cadw'r ardal yn saff

- e) Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partiön â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawriad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- i. Atal trosedd ac anhrefn
- ii. Atal niwsans cyhoeddus
- iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
- iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

PENDERFYNWYD: Gwrthod y cais

Rheswm: Mesurau rheolau annigonol i gydymffurfio â'r amcanion trwyddedu

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Bod trigolion cyfagos wedi gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd yn cynnwys preswylwyr y gwesty yn ymgynnull i yfed. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans yn cael eu galw i'r gwesty yn aml ac yn mynegi pryder y byddai caniatáu'r drwydded yn cynnig temtasiwn pellach i'r preswylwyr ac yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Serch hynny, ystyriodd yr Is-bwyllgor nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais, ond yn argymhell amodau TCC i'r drwydded fel modd o rwystro'r person(au) hynny sy'n mynnu ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol ac achosi problemau.

Roedd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd wedi gwrthwynebu'r cais ar sail amcanion trwyddedu diogelwch y cyhoedd ac amddiffyn plant rhag niwed. Roedd eu pryderon wedi eu priodoli i'r eiddo penodol yma oherwydd y defnydd a wnaed o adeilad y gwesty i letya unigolion digartref gan gynnwys y rhai gaiff eu rhyddhau o Uned Hergest ym Mangor. Byddai darparu alcohol yn eu barn nhw yn creu sefyllfa heriol iawn i'r rhai hynny oedd yn gadael ysbyty gyda gofynion iechyd meddwl cymhleth a phroblemau yn ymwneud ag alcohol a/neu sylweddau eraill. Heb broses o 'ffiltro' yr unigolion mwyaf bregus gallai arwain at gynnydd mewn niwed tra ar y safle, ond byddai hynny'n anodd iawn ar hyn o bryd oherwydd lefel yr angen. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn fod y sylwadau yma yn arwyddocaol. O safbwynt y pryderon a godwyd o ran agosatrydd yr eiddo at ysgol, nid oedd yr Is-bwyllgor yn credu fod tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r ddatl yma.

Cyflwynodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Rheoli Llygredd sylwadau yn gwrthwynebu ar sail mesurau annigonol i reoli niwsans cyhoeddus. Roedd cwynion wedi dod i law ynglŷn ag arogl coginio ac nid oeddynt wedi derbyn ymateb i'r pryderon erbyn dyddiad y gwrandawriad. Roedd ganddynt hefyd bryderon ynglŷn â darpariaeth toiledau a dŵr yfed gan nad oedd cyfleusterau'r gwesty ar agor i'r cyhoedd. Roedd angen mwy o wybodaeth am y math o oleuadau i'w defnyddio ar y safle a hefyd bod angen cynllun rheoli sŵn i fynd i'r afael ag unrhyw sŵn gan gwsmeriaid. Eglurodd yr Ymgeisydd y byddai'n cymryd camau i rwystro arogleuon rhag ymyrryd ar gymdogion gan gynnwys coginio oddi ar y safle. Eglurodd y byddai'n defnyddio toiledau symudol ar y safle. Cyfaddefodd yr Ymgeisydd bod pobl yn gadael sbwriel gan gynnwys gwydrau ar y safle ac y byddai cael trwydded yn fodd o reoli hyn.

Roedd yr Is-bwyllgor yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r cais sef, yn gryno, y byddai cael trwydded i werthu alcohol ar y safle yn fodd o rwystro pobl rhag dod ag alcohol o fannau eraill fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac i reoli faint a pha fath o alcohol fyddai'n cael ei yfed yno. Serch hynny, rhaid cofio bod y safle mewn perchnogaeth breifat ac fel y perchennog a deilydd trwydded, roedd gan yr Ymgeisydd y cyfrifoldeb i reoli'r safle'n gyfrifol ac y gallai eisoes gymryd camau i fynd i'r afael a phroblemau pe bai'n dymuno.

Roedd tystiolaeth yn dangos i'r Is bwyllgor nad oedd yr ymgeisydd yn gwneud hynny ar hyn o bryd ac roedd hynny'n achosi pryder iddynt. Roedd cynrychiolydd yr ymgeisydd hefyd yn nodi mai dim ond am oriau a chyfnodau penodol y o'r flwyddyn y byddai'r busnes yn gweithredu o'r ardd ac na fyddai felly yn medru mynd i'r afael â'r problemau y tu allan i'r oriau hynny. Yn ogystal, nodwyd fod y garafán fwyd eisoes wedi bod yn gweithredu ar y safle ac yn cyflenwi alcohol o dan drefniadau TENS.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor ymarferoldeb cadw rheolaeth ar y safle fel ag yr oedd yr Ymgeisydd yn bwriadu tra bod y garafán yn gweithredu. Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai modd rheoli'r safle yn ddigonol o gymryd i ystyriaeth natur agored a chyhoeddus y safle a'r nifer o staff fyddai yn bresennol ar unrhyw un adeg. Ni fyddai chwaith yn ymarferol i staff i fedru adnabod holl drigolion dros dro y gwesty fel bod modd eu gwahaniaethau oddi wrth gwsmeriaid eraill a gwrthod eu gweini. Roedd hi'n amlwg i'r Is-bwyllgor o'r hyn yr oedd pawb, gan gynnwys Ymgeisydd yn ei ddweud, bod problemau yn bodoli ar y safle eisoes.

Yn gyffredinol roedd y cais yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy gael trwydded i werthu alcohol gyda bwyd yn yr ardd o'r garafán. Nid oedd yr Is-bwyllgor serch hynny wedi ei berswadio y byddai hynny yn ddigonol ynddo'i hun i reoli'r holl broblemau ac nad oedd yn ymarferol i weithredu'r mesurau rheoli a gynigwyd. Roedd y defnydd penodol a wnaed o'r gwesty a natur fregus y trigolion yn golygu y gallai arwain at waethygu'r sefyllfa. Penderfynodd yr Is-bwyllgor felly wrthod y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy llythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

5: Cais Trwydded Eiddo Becws Melyn, 41b, Stryd Fawr, Llanberis

- Sarah Hopwood Ymgeisydd
- Heather Jones Cyngor Cymuned Llanberis
- Arwel Huw Thomas Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd
- Moira Duell Pari Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jen Owen (preswylydd lleol a gyflwynodd sylwadau) ac Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru) oedd wedi colli cysylltiad oherwydd problemau technegol.

- a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais i amrywio trwydded eiddo Becws Melyn, 41 B Stryd Fawr, Llanberis. Eglurwyd bod Becws Melyn yn gweithredu fel bwyty a bar bychan gyda diodydd yn cael eu gweini gyda bwyd. Roedd yr ymgeisydd o'r farn y byddai estyniad yn yr amser agor yn fanteisiol a bod y busnes wedi ei drwyddedu ers blwyddyn, wedi ei reoli yn llwyddiannus drwy'r Haf heb unrhyw drafferthion. Nid oedd llawer o werthiant alcohol ac o ganlyniad ni fydd potensial sŵn neu ymddygiad afreolus.

Gofynnwyd am yr hawl i ymestyn gwerthiant alcohol i gychwyn am 09:00 y bore yn hytrach na 12, ac ymestyn oriau agor o 22:00 yr hwyr i 00:00 bob nos lau, Gwener, Sadwrn a nos Sul. Gofynnwyd hefyd am ymestyn oriau cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio nos lau, nos Wener Sadwrn a'r Sul hyd at 00:00.

Amlygwyd y cafodd y cyfnod ymgynghorol ei ymestyn i'r 13eg o Awst oherwydd nad oedd wedi ei hysbysebu yn gywir, ond cadarnhawyd bod yr Awdurdod Trwyddedu yn hapus fod y cais wedi ei hysbysebu yn unol â gofynion Deddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

Tynnwyd sylw at ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

- Cyngor Cymuned Llanberis yn gwrthwynebu'r cais oherwydd bod cwynion sŵn wedi eu derbyn yn dilyn un o'r nosweithiau a gynhaliwyd fin nos ar yr eiddo. Nodwyd hefyd fod sŵn yn cario wrth agor drysau blaen y bwyty.
- Gwasanaeth Cynllunio yn amlygu bod hawl Cynllunio diwygiedig yn caniatáu i'r eiddo fod ar agor rhwng 8:00 a 23:30, ond bod y cais am amrywiad trwyddedu arfaethedig yn mynd tu hwnt i'r oriau hynny ar bedair noson. Nodwyd hefyd fod y gwasanaeth gorfodaeth cynllunio wedi derbyn cwynion am y sŵn
- Trigolion cyfagos yn gwrthwynebu ac wedi amlygu pryderon, yn bennaf mewn perthynas â'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus, atal trosedd ac anrhefn a diffyg ffydd yng ngallu perchennog y busnes i reoli sŵn ac ymddygiad gwrth gymdeithasol ar yr eiddo.
- Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi derbyn cwynion am aflonyddwch sŵn ac nad oedd y busnes yn cadw at oriau caniatâd Cynllunio. Yn amlygu pryder gan nad oedd digon o wybodaeth wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd yn hanesyddol nac yn bresennol ar sut y bwriedir sicrhau fod mesurau rheoli a champau gweithredu mewn lle i gyfarch yr amcanion trwyddedu.
- Er nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu'r cais gan nad oedd yr oriau arfaethedig yn hwyrach nag eiddo trwyddedig eraill yn yr ardal, derbyniwyd sylw fod yr Heddlu wedi derbyn adroddiad o wyn sŵn cerddoriaeth yn dilyn digwyddiad yn yr eiddo ar y 31/5/24 a aeth yn ei flaen tan oriau man y bore; ac aflonyddwch oherwydd bod pobl yn sefyll tu allan i'r eiddo yn yfed.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymhell fod yr Is-bwyllgor yn ystyried y dystiolaeth o ddiffyg rheolaeth sydd wedi bod ar yr eiddo hyd yma, ac yn gwrthod y cais

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Bod y bwyty yn fach ac yn gwerthu tapas fin nos – yn defnyddio cynnyrch Cymreig wedi ei weini gyda diod – yn ardal gyfforddus gyda atmosffer gynnes
- Y busnes oddeutu 90% bwyty a 10% gweithgareddau fin nos

- Bod cau am 22:00 i weld yn gynnar ac yn bechod gorfod cau gyda chwsmeriaid eisiau aros ymlaen - cais felly i ystyried estyniad hyd 22:30.
- Bod llefydd bwyta eraill yn y pentref yn agor hyd 23:00
- Ei bod yn ymddiheuro am sŵn o'r parti a gynhaliwyd ddiwedd Mai 2024. Wedi gwaith caled a llwyddiant y busnes cafwyd cyfle i ddathlu gyda'r gymuned leol. Un digwyddiad ydoedd ac nid oedd trafferth ers hynny. Nid oedd yn ymwybodol bod cwynion wedi eu cyflwyno. Cafwyd parti preifat i staff o 22:00 ymlaen ar y noson gydag oddeutu 15 o bobl - hwn wedi bod yn gamgymeriad ac ni ddylai fod wedi digwydd
- Yn anymwybodol o gwynion sŵn eraill hyd nes derbyniwyd llythyr gan y Cyngor. Cynhaliwyd cyfarfod i drafod mesurau lliniaru sŵn, ond trafodwyd materion bwyd a chynllunio ac ni dderbyniwyd manylion am y cwynion sŵn. Hefyd, yn anymwybodol o gwynion cwsmeriaid yn yr ardal patio - eto, yn ymddiheuro am hyn
- Ers y diwrnod cyntaf, y busnes wedi ei hysbysebu fel bwyty / bar
- Bod digwyddiadau yn cael eu cynnal yn yr eiddo yn cynnwys nosweithiau bwyd, grwpiau Cymraeg, dosbarthiadau cyn geni ac ati
- Yn teimlo yn rhwystredig na allai fod wedi trafod y materion / cwynion sŵn gyda chymdogion - bod modd lliniaru sŵn a lleihau'r effaith. Gellid datrys y sefyllfa gyda materion allweddol
- Offer mesur sŵn ar gael ac yn barod i rannu lefelau sŵn gyda'r Gwasanaeth Trwyddedu
- Nid yw eisiau creu problemau sŵn i gymdogion
- Yn dymuno y byddai'r pryderon wedi ei rhannu gyda hi

Mewn ymateb i'r sylwadau, diolchwyd i'r ymgeisydd am ei chyfaddefiad gonest o beidio bod yn ymwybodol o bryderon sŵn ac am ymddiheuro, er hynny ystyriwyd bod y bwyty, gyda'r dydd yn atyniad positif ond yn far swnllyd gyda'r nos. Sut felly byddai'n rheoli'r sefyllfa?

Nododd yr ymgeisydd mai ei chymdogion agosaf oedd wedi cyflwyno cwynion ac nid oedd yn ymwybodol o'r cwynion hynny. Petai'r wybodaeth wedi ei rannu gyda hi buasai wedi ymateb drwy gau'r drysau, cau ffenestri a chlirio'r ardal patio. Buasai wedi dymuno trafodaeth agored i ddatrys y problemau / pryderon. Ategodd bod cwsmeriaid o'r clwb cymdeithasol yn dueddol o greu sŵn wrth ddod i fyny o'r clwb i'r stryd fawr, a hynny fwy neu lai gyferbyn a'r bwyty / bar. Ni fyddai yn caniatáu mynediad i'r cwsmeriaid hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â faint o staff oedd yn gweithio yn y bwyty / bar a disgrifiad o'r eiddo, nododd yr ymgeisydd bod y bwyty / bar ar agor drwy'r flwyddyn ac yn derbyn cefnogaeth pobl leol. Eglurwyd bod stafell fechan i fyny'r grisiau yn eistedd hyd at 8 o bobl. Nid oedd tapiau cwrw yn y bar. Petai'n gorfod cau y bwyty / bar gyda'r hwyr yna ni fyddai'r busnes yn llwyddo.

Yng nghyd-destun mynediad i'r eiddo, nodwyd bod ramp i'r eiddo yn cael ei ddefnyddio fel ardal 'patio', ond bod modd cael mynediad i bramiau / cadair olwyn drwy ddrws cefn yr eiddo sydd ar lefel stryd.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

Moira Duell Pari (Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd)

Rhannwyd fideos o rai digwyddiadau oedd yn amlygu sŵn o'r eiddo (tu allan i oriau agor)

- Bod cwynion wedi ei derbyn am y parti a gynhaliwyd 31-05-24. Er yn barti preifat i staff yn unig, ei fod wedi ei gyhoeddi ar y gwefannau cymdeithasol

- Bod cwynion yn ymwneud a thrwyddedu, cynllunio a gwarchod y cyhoedd wedi dod i law gyda llythyr wedi ei anfon at yr ymgeisydd 06-06-24 yn tynnu sylw at y cwynion. Er bod yr ymgeisydd yn disgyn ar ei bai, nid oedd wedi ymateb
- Cyfarfod wedi ei drefnu gyda deilydd y drwydded a Rheolwr y bwyty / bar lle trafodwyd materion a rhannu gwybodaeth am bobl yn ymgynnull tu allan i'r eiddo ac yn codi lleisiau. Yr ymateb i hyn wedi bod yn siomedig
- Cam ddefnydd o gerddoriaeth acwstig / wedi chwyddo - rhaid ymddwyn yn gyfrifol ac angen strwythur rheoli gadarn
- Fel person busnes, disgwylid rhoi ystyriaeth i ymddygiad ac ymateb yn gyfrifol

Arwel Huw Thomas (Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd)

- Y Gwasanaeth Cynllunio yn gwrthwynebu'r cais. Hawl cynllunio yn caniatáu i'r eiddo fod ar agor rhwng 8:00 a 23:30 y nos. Tra bod yr oriau agor i'r cyhoedd (chwarae miwsig byw ac wedi ei recordio a gwerthu alcohol o ddydd Llun i ddydd Mercher) yn unol â'r cyfyngiadau agor sydd ar yr eiddo, mae ymestyn yr oriau i hanner nos rhwng dydd Iau a dydd Sul yn groes i'r cyfyngiad. Byddai caniatáu diwygio'r drwydded yn groes i'r caniatâd cynllunio sydd yn bodoli ar yr eiddo yn barod.
- Bod yr Uned Gorfodaeth Cynllunio wedi derbyn cwynion am lefelau sŵn annerbyniol yn deillio o'r eiddo yn y gorffennol, ac ystyriwyd y byddai caniatáu ymestyn oriau'r drwydded ond yn amlygu hynny ymhellach. Cwyn wedi ei gyflwyno yn amlygu bod cerddoriaeth wedi bod yn cael ei chwarae yn uchel yn ystod oriau mân y bore ar y 1 Mehefin 2024.
- Bod y sylwadau hyn yn ystyriaethau materol Cynllunio a gwrthodir cynigion os byddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau trigolion lleol.
- Petai'r oriau yn cael eu hymestyn byddai rhaid ail asesu drwy weithdrefnau Cynllunio ac yn erbyn polisïau Cynllunio'r Cyngor fydd yn destun cais cynllunio newydd.

Heather Jones (Cyngor Cymuned Llanberis)

- Bod cwynion sŵn wedi eu derbyn yn ardal yr eiddo
- Yn gwrthwynebu ar sail diffyg cydymffurfiaeth (digwyddiad 31-05-24)
- Er yn annog busnesau i'r stryd fawr ac yn croesawu'r bwyty a'i ddefnydd ar gyfer digwyddiadau cymunedol, rhaid sicrhau cydbwysedd – gormod o sŵn yn dod o'r eiddo gyda'r nos
- Yn derbyn bod sŵn hefyd yn dod o'r clwb cymdeithasol, ond yn poeni am effaith y sŵn ar drigolion sydd yn byw rhwng Becws Melyn a'r Clwb Cymdeithasol

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau

Yn cymryd y cyfle i gloi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu:

- Ei bod yn croesawu busnes newydd, llwyddiannus ond nid wedi ei hargyhoeddi bod rheolaeth effeithiol o'r safle

Yn cymryd y cyfle i gloi ei hachos, nododd yr ymgeisydd:

- Ei bod yn barod i ddangos y gall reoli'r eiddo yn dda ac ymateb i sylwadau Cynllunio
- Cais i'r Aelodau ystyried hanner awr ychwanegol – hyd at 22:30

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partiön â diddordeb, adroddiad y Swyddog

Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawriad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwysu a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- i. Atal trosedd ac anhrefn
- ii. Atal niwsans cyhoeddus
- iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
- iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

PENDERFYNWYD: GWRTHOD

Rheswm: Diffyg rheolaeth i gydymffurfio â'r amcanion trwyddedu

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Roedd y sylwadau a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r amcan trwyddedu o **Atal Niwsans Cyhoeddus**. Ni chyflwynwyd gwrthwynebiad gan yr Heddlu oherwydd nad oedd yr oriau arfaethedig yn hwyrach nag eiddo trwyddedig eraill yn yr ardal. Serch hynny eglurwyd iddynt dderbyn adroddiad o gŵyn sŵn cerddoriaeth yn dilyn digwyddiad yn yr eiddo ar y 31/5/24 aeth yn ei flaen tan oriau man y bore, ac aflonyddwch oherwydd bod pobl yn sefyll tu allan i'r eiddo yn yfed. Eglurodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd fod yr eiddo mewn lleoliad sensitif i sŵn, a bod cyfyngiad oriau'r caniatâd cynllunio wedi eu gosod oherwydd bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod angen rheoli niwsans sŵn ac aflonyddwch.

Derbyniwyd cwynion ar ôl parti dathlu pen-blwydd y busnes ar 31/05/24 yn ogystal â chwynion sŵn o nosweithiau eraill yn 2023 a 2024. Dangoswyd fideos wedi eu ffilmio gan drigolion cyfagos fel tystiolaeth. Wrth gyflwyno eu sylwadau, roedd y Gwasanaeth Cynllunio yn nodi hefyd iddynt dderbyn cwynion am y sŵn. Eglurodd y Gwasanaeth fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Ymgeisydd ar 07/08/24 i drafod rheolaeth sŵn, ond nad oeddynt yn teimlo fod eu pryderon wedi cael y sylw yr oeddynt yn ei ddisgwyl ac nad oedd yr Ymgeisydd wedi 'perchnogi'r' broblem. Roeddynt hefyd yn teimlo y dylai'r Ymgeisydd fod wedi sylweddoli fod problemau gyda'r eiddo beth bynnag a'u bod wedi ysgrifennu ati. Roeddynt o'r farn nad oedd digon o wybodaeth wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd yn hanesyddol nac ynglŷn â'r cais presennol ar sut yr oedd yn bwriadu gosod mesurau rheoli a chymau gweithredu i sicrhau bod yr amcan trwyddedu yn cael ei gyflawni.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau'r Ymgeisydd gan gynnwys ei eglurhad nad oedd yn ymwybodol bod cymaint o gwynion wedi eu gwneud a'i bod yn credu mai dim ond yr un digwyddiad ar 31/05/24 oedd y broblem. Roeddynt serch hynny o'r farn y dylai fod yn cadw gwell rheolaeth ar yr eiddo beth bynnag yn enwedig o ystyried bod yr eiddo mewn ardal sy'n sensitif o safbwynt sŵn. Roedd yr Is-bwyllgor yn gwerthfawrogi bod yr Ymgeisydd yn syrthio ar ei bai ac yn ymddiheuro am y digwyddiadau; a'i bod yn cydnabod bod angen gwella rheolaeth yr eiddo. Roeddynt hefyd yn gwerthfawrogi ei bod wedi cynnig, yn y gwrandawriad, i gymryd mesurau rheoli sŵn drwy e.e., lleihau oriau, sicrhau bod y drws ar gau a bod mesurydd sŵn i sicrhau nad oedd y sŵn yn cyrraedd lefelau annerbyniol. Serch hynny nid oedd yr amodau a'r newidiadau yma wedi eu cynnwys yn y cais na 'chwaith wedi eu cyflwyno a'u trafod gyda swyddogion cyn y gwrandawriad.

Mewn achos o'r fath lle'r oedd llawer o bryderon wedi eu mynegi, byddai'r Is bwyllgor angen sylwadau gan y swyddogion proffesiynol ar ôl iddynt gael cyfle i'w cloriannu'n

drwyadl a'u trafod ymhellach gyda'r ymgeisydd pe bai angen. Nodwyd hefyd nad oedd yr Ymgeisydd wedi adrodd ar y lefelau a fesurwyd gan ei mesurydd sŵn a bod hyn yn atgyfnerthu'r argraff nad oedd sylw digonol wedi ei dalu i'r mater. Nid oedd modd i'r Is-bwyllgor fodloni ei hun y byddai'r hyn oedd yn cael ei gynnig yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon ynglŷn â'r cais.

Roedd tystiolaeth glir o broblemau sŵn o'r eiddo ac nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr Ymgeisydd ar hyn o bryd yn cymryd camau digonol i reoli'r broblem. Byddai angen i'r Is-bwyllgor fod yn fodlon bod unrhyw amrywiadau i'r drwydded bresennol yn rhesymol o ran yr oriau arfaethedig a bod amodau addas a digonol ar waith i fynd i'r afael a'r broblem sŵn. Am y rhesymau hyn nid oedd yr Is-bwyllgor yn gallu cymeradwyo'r cais naill ai ar sail yr oriau a gyflwynwyd yn y cais neu leihad yn yr oriau ychwanegol a gynigiwyd gan yr ymgeisydd yn y gwrandawriad.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy llythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 15:00

Eitem 6

PWYLLGOR	Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	11 TACHWEDD 2024
TEITL:	CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD – TRINIAETHAU ARBENNIG
PWRPAS:	1. NODYN BRIFFIO AR RÔL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A'R STRWYTHUR FFOEDD 2. I GYMERADWYO DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU STATUDOL I'R IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio bod y pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 4 Rhagfyr 2023 wedi cael gwybod y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun trwyddedu newydd ar gyfer 'Triniaethau Arbennig' yn 2024. (Gellir gweld yr adroddiad blaenorol i bwyllgor yn yr atodiad).
- 1.2 Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer Gweithdrefnau Arbennig yn annigonol. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yw'r prif ddull o orfodi safonau yn y sector hwn trwy ddefnyddio cynllun cofrestru. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i awdurdodau lleol fabwysiadu'r cynllun hwn yn wirfoddol, ac ni all y rhai sydd wedi ei fabwysiadu wrthod cofrestru'r unigolyn neu'r eiddo oni bai eu bod wedi eu cael yn euog o drosedd o dan Ran VIII o Ddeddf 1982. Yn bwysig iawn, nid yw Deddf 1982 yn gofyn am 'brawf cymhwysedd' i'r rhai sy'n darparu triniaethau arbennig i ddangos bod ganddynt wybodaeth briodol am hylendid a rheoli heintiau.
- 1.3 Bwriad y cynllun trwyddedu yw gwella a chynnal safonau atal a rheoli heintiau yn y diwydiant triniaethau arbennig a sicrhau diogelwch ac iechyd cleientiaid ac ymarferwyr fel ei gilydd.
- 1.4 Mae Triniaethau Arbennig yn cynnwys tatwio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu cosmetig, aciwbigo, nodwyddau sych ac electrolysis; a bydd y cynllun trwyddedu newydd yn orfodol. Fe wnaeth Dr Sarah Jones, Uwch Ymgynghorydd Iechyd yr Amgylchedd i Llywodraeth Cymru gyflwyno'r egwyddorion y tu ôl i'r cynllun trwyddedu hwn i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2023, a gellir gweld copi o'i chyflwyniad yn yr atodiad.
- 1.5 Cadarnhawyd mai'r dyddiad ar gyfer gweithredu'r cynllun hwn fydd 29 Tachwedd 2024; bydd rheoliadau sy'n llywodraethu pob agwedd o'r cynllun yn dod i rym ar y dyddiad hwn, o dan Ran 4 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Y Ddeddf"); gan gynnwys Rheoliadau Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 a Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024

2.0 SUT BYDD Y CYNLLUN TRWYDDEDU YN CAEL EI ORFODI

- 2.1 Bydd y drefn newydd yn golygu y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu ac am gadw cofrestr o drwyddedau triniaethau arbennig a roddwyd ganddynt.

- 2.2 Bydd hi'n ofynnol i Ymarferwyr Triniaethau Arbennig ddangos eu cymhwysedd i ymgymryd â'r triniaethau hyn drwy gwblhau hyfforddiant a bod yn destun archwiliad gan Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd (Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd). Yn ogystal, bydd yn rhaid iddynt ddarparu DBS Sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded.
- 2.3 Bydd prif ofynion y system hon fel a ganlyn:
- Mae'n rhaid i ymarferwyr gael trwydded i gynnal triniaethau arbennig.
 - Bydd cynnal triniaethau arbennig heb drwydded yn drosedd;
 - Mae'n rhaid i eiddo neu gerbydau busnes gael eu cymeradwyo.
 - Bydd yn drosedd i ymarferydd gynnal unrhyw driniaeth mewn eiddo neu gerbydau sydd heb gael eu cymeradwyo.
 - Bydd trwydded lawn yn para am dair blynedd a bydd trwydded dros dro yn para am 7 diwrnod (i ganiatáu ar gyfer Digwyddiadau a chynadleddau)
 - Bydd yn rhaid arddangos y Drwydded yn yr eiddo lle mae'r triniaethau arbennig yn cael eu cynnal
 - Bydd amodau'r drwydded yn cynnwys cymhwysedd yr ymarferydd, yr eiddo, yr offer a'r arferion a ddefnyddir, unrhyw gyngor y mae'n rhaid ei roi cyn neu ar ôl y driniaeth arbennig, a'r cofnodion sydd angen eu cadw.
 - Bydd gofyn i ymarferwyr gael hyfforddiant penodol
- 2.4 Bydd angen i'r ymarferwyr hynny sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd symud i'r system newydd. Caniateir 3 mis iddynt hwy a'u safleoedd gael eu hasesu gan swyddogion a'u trosglwyddo i'r system drwyddedu newydd.

3.0 RÔL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

- 3.1 O dan y Deddf Llywodraeth Leol 2000 mae unrhyw swyddogaethau sydd ddim wedi eu dirprwyo yn benodol drwy ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor Trwyddedu yn dod yn gyfrifoldeb rhagosodedig i'r Cabinet.
- 3.2 Mae adran 76 o Ran 4 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn caniatáu i awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno Trwydded Triniaethau Arbennig neu Dystysgrif Safle Cymeradwy godi ffi. Mae faint o ffi a gaiff ei chodi gan awdurdod lleol i'w benderfynu ar ôl ystyried y costau a gafwyd neu y disgwylir i'r awdurdod eu cael. Ymgynghorwyd â phob Awdurdod Lleol yng Nghymru ar y ffioedd arfaethedig, sydd wedi'u cyfrifo yn unol â'r egwyddorion adennill costau gan Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig Cymru Gyfan ac a gymeradwywyd gan Gwarchod y Cyhoedd Cymru. Bydd y Cabinet yn cymeradwyo gosod strwythur ffioedd a ffioedd priodol, a'r cynllun awdurdod dirprwyedig ar gyfer y Ddeddf. Gweler manylion y ffioedd i'w cymeradwyo gan y Cabinet yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.
- 3.3 Mae'r Deddf 2017 (cymal 21, Atodlen 3) yn dirprwyo swyddogaethau penodol i'r pwyllgor trwyddedu yr awdurdod sydd wedi ei sefydlu o dan y Ddeddf Drwyddedu 2003 (h.y. y Pwyllgor Trwyddedu Canolog) ac mae yn caniatáu y Pwyllgor i wneud penderfyniadau mewn perthynas a'r swyddogaethau hynny. Mae'r swyddogaethau hyn yn berthnasol i sefyllfaoedd lle mae ymatebion wedi eu derbyn mewn ymateb i Hysbysiad Rybudd a gyflwynir gan yr Awdurdod. Mae'r Deddf yn darparu fod rhaid i'r awdurdod trwyddedu gyflwyno Hysbysiad o Rybudd pan fwriedir cynnal unrhyw un o'r gweithredoedd hyn:
- Gwrthod cais am drwydded triniaeth arbennig;
 - Gwrthod cais i amrywio trwydded triniaeth arbennig (mewn perthynas ag ychwanegu triniaeth arbennig at y drwydded driniaeth arbennig sy'n awdurdodi perfformio'r driniaeth honno);

- Gwrthod cais i adnewyddu trwydded triniaeth arbennig; dynodi unigolyn fel person sydd angen trwydded triniaeth arbennig;
- Diddymu trwydded triniaeth arbennig;
- Diddymu tystysgrif gymeradwyaeth.

Fe gyflwynir Hysbysiad o Rybudd gan y Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd; ond fe fydd gan y derbynnydd yr hawl i gyflwyno ymatebion i'r Awdurdod mewn ymateb. Os oes ymatebion yn cael eu cyflwyno, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried yr ymatebion rheini a phenderfynu os dylid gweithredu yn unol a'r camau gweithredu sydd wedi eu gosod allan yn yr Hysbysiad O Rybudd.

- 3.4 Mae'r Rheoliadau Triniaethau Arbennig Pwyllgorau Trwyddedu (Cymru) 2024 (gweler atodiad) yn amlinellu'r amgylchiadau y dylid cynnal gwrandawriad; yn ogystal a'r gweithdrefnau a ddyldid eu dilyn gan y Pwyllgor Trwyddedu.
- 3.5 Mae'r Deddf yn caniatáu'r Pwyllgor Trwyddedu i is – ddirprwyo'r swyddogaethau a ddirprwyir iddo i is - bwyllgor a sefydlwyd ganddo yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003; h.y , yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog sydd eisoes yn bodoli. Mae angen penderfyniad gan y Pwyllgor i alluogi hyn. Mae'r drefn Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog yn sefydledig ac mae'r aelodau yn brofiadol yn ystyried a phenderfynu ar geisiadau o dan y Ddeddf Drwyddedu 2003. Fe argymhellir felly fod y swyddogaethau o dan y Ddeddf 2017 yn cael eu dirprwyo i'r Is – Bwyllgor.
- 3.6 Bydd penderfyniadau i gymeradwyo ceisiadau am drwydded lle bodlonir y safonau priodol yn cael eu dirprwyo i swyddogion.

ARGYMHELLIAD

I gymeradwyo is – ddirprwyo swyddogaethau a ddirprwyid i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog o dan y Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 i'r Is - Bwyllgor Trwyddedu Canolog .

PWYLLGOR	PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
DYDDIAD:	4 RHAGFYR 2023
TEITL:	CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD - TRINIAETHAU ARBENNIG
PWRPAS:	CYFLWYNIAD AR Y GOFYNION NEWYDD - A RÔL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Bydd cynllun trwyddedu newydd ar gyfer 'Triniaethau Arbennig' yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru oddeutu mis Mehefin 2024 (yr union ddyddiad i'w gadarnhau), dan Ran 4 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017. Mae Triniaethau Arbennig yn cynnwys tatŵio, lliwio'r croen yn lled barhaol, tyllu addurnol, aciwbigo, nodwyddo sych ac electrolysis.
- 1.2 Bydd prif ofynion y gyfundrefn hon fel a ganlyn:
- Mae'n rhaid i ymarferwyr gael trwydded i gynnal triniaethau arbennig.
 - Bydd cynnal triniaethau arbennig heb drwydded yn drosedd;
 - Mae'n rhaid i eiddo neu gerbydau busnes gael eu cymeradwyo.
 - Bydd yn drosedd i ymarferydd wneud unrhyw driniaeth mewn eiddo neu gerbydau sydd heb gael eu cymeradwyo.
 - Bydd trwydded lawn yn para am dair blynedd a bydd trwydded dros dro yn para am 7 diwrnod (i ganiatáu ar gyfer Digwyddiadau a chynadledau).
 - Bydd yn rhaid arddangos y Drwydded yn yr eiddo lle mae'r triniaethau arbennig yn cael eu cynnal.
 - Bydd amodau'r drwydded yn cynnwys cymhwysedd yr ymarferydd, yr eiddo, yr Offer a'r arferion a ddefnyddir, unrhyw gyngor sydd angen ei roi cyn neu ar ôl y driniaeth arbennig, a'r cofnodion sydd angen eu cadw.
 - Bydd angen i'r ymarferwyr gael hyfforddiant penodol.
- 1.3 Bwriad Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno'r cynllun hwn yw lleihau'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â'r triniaethau hyn. Yn amlach na dim, gall heintiau ddatblygu yn safle'r driniaeth a gall ymarferion amhriodol ac anhylan arwain at ledaenu afiechydon heintus megis firysau a gludir yn y gwaed.

2 Y SEFYLLFA GYFREDOL

- 2.1 Ar hyn o bryd, os yw unigolyn yn dymuno gwneud aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled barhaol, tyllu addurnol neu electrolysis, mae'n rhaid iddynt wneud cais i gofrestru gyda'i awdurdod lleol. Amlinellir y gofyn i gofrestru yn Rhan 8 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Dan Ddeddf 1982, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru is-ddeddfau enghreifftiol o ran materion penodol sy'n llywodraethu arferion hylendid diogel gyda'r mathau hyn o driniaethau, ond mae'r opsiynau gorfodaeth dan y darpariaethau hyn yn brin, hyd yn oed mewn Awdurdodau Lleol sydd wedi mabwysiadu'r safonau enghreifftiol yn is-ddeddfau Lleol yn llawn.
- 2.2 Rhywbeth arall i'w ystyried ar hyn o bryd yw'r ffaith mai'r unig reswm y gall awdurdodau lleol wrthod cais ar gyfer cofrestrriad tyllu croen dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yw os cafodd cofrestrriad blaenorol yr ymgeisydd ei ganslo gan y llysoedd o ganlyniad i euogfarn (e.e. ar ôl torri is-ddeddf hylendid).

3 GOBLYGIADAU'R CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD

- 3.1 Bydd y gyfundrefn newydd yn golygu bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi gofynion trwyddedu'r ymarferion hyn a chadw cofrestr o drwyddedau triniaethau arbennig a gyflwynir ganddynt.
- 3.2 Os yw awdurdod lleol yn fodlon nad yw deilydd y drwydded wedi llwyddo i gydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol neu wedi cael euogfarn berthnasol, gall ddiddymu trwydded triniaeth arbennig, naill ai yn llawn neu gyhyd â'i bod yn berthnasol i berfformiad y driniaeth arbennig benodol. Lle mae camau wedi'u cymryd gan yr awdurdod lleol, megis cyflwyno rhybudd atal, diddymu trwydded neu wrthod cais, mae hawl gan yr unigolyn i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol ac apelio i lys yr ynadon yn erbyn y penderfyniad.
